**Cynllun Gweithredu Cyfunol mewn ymateb i'r Argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad ar Adolygiad ynglŷn â Mr I a'r Ddarpariaeth o Wasanaethau Iechyd Meddwl, yn dilyn Lladdiad a gyflawnwyd ym mis Mehefin 2009**

| **Argymhelliad** | | |
|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | | |
| 3.1 Dylai pob asiantaeth ac unigolyn sy'n ymwneud â gofal a chymorth unigolyn sy'n destun trwydded gael gwybod cyn gynted â phosibl am y dyddiad y bydd y drwydded yn dod i ben. | | |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| O ran pob carcharor sydd wedi ei ddedfrydu a dderbynnir i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg am driniaeth iechyd meddwl fel claf mewnol, bydd y Tîm Clinigol yn cysylltu â'r Gwasanaeth Prawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gadarnhau dyddiadau terfyn y ddedfryd a'r drwydded ac yn cofnodi'r dyddiadau hynny yn y dogfennau Dull Rhaglen Ofal. | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Erbyn hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol staff sy'n cydgysylltu â'r Uned Diogelu'r Cyhoedd. Mae hyn wedi cryfhau'r cyfathrebu ymhlith yr asiantaethau ynglŷn ag achosion o | Nyrs Ranbarthol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| arestio cleientiaid sydd â chysylltiadau â'r gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'n fwy tebygol felly bod y cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad hwn yn fwy cadarn. | | |
| **Ymateb gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| a) Mae'r gyfres o ddogfennau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) wedi eu mabwysiadu gan bob asiantaeth yn Ardal De Cymru ac mae dyddiadau wedi eu cynnwys yn Ffurflen Atgyfeirio A MAPPA.<br><br>b) Bydd atgyfeiriadau dros y we i'r system MAPPA (Prawf) yn cynnwys dyddiadau perthnasol fel meysydd gorfodol.<br><br>c) Dosberthir cofnodion cyfarfodydd MAPPA i bawb sy'n mynychu'r cyfarfodydd a'r rhai a wahoddir ond sy'n anfon ymddiheuriadau. Caiff y broses hon o anfon dogfennau cyfrinachol (CYFYNGEDIG) ei chefnogi'n sylweddol gan e-bost diogel, ac mae'r diffyg cyfeiriadau e-bost diogel yn y gwasanaeth iechyd (.pnn, .gsi, .cjsm) yn arafu ac yn amharu ar gyfathrebu effeithiol. | a) Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA<br><br>b) Ymddiriedolaeth Prawf Cymru<br><br>c) Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA | a) Gwnaethpwyd<br><br>b) Mawrth 2012<br><br>c) Parhaus |
| **Argymhelliad** | | |
| **Cyfathrebu** | | |
| 3.2 Dylid sicrhau bod y prosesau sy'n gysylltiedig â phob asiantaeth ac unigolyn sy'n ymwneud â gofal, triniaeth a chymorth unigolyn sy'n dianc yn cael eu cadw'n gyfredol. Pan fydd unigolyn yn cael ei arestio, dylid sicrhau yr hysbysir pob asiantaeth am hynny a'u bod yn cael gwybod pa garchar y'i dychwelwyd iddo. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cysylltu â'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol i gytuno ar brotocol cyfathrebu ar gyfer rhannu gwybodaeth ynglŷn â chleifion sy'n destun ôl-ofal dan Adran 117 sy'n dianc o leoliadau cymunedol a/neu sy'n cael eu harestio a'u dychwelyd i'r carchar. | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 31 Ionawr 2012 |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Fel y nodwyd yn Argymhelliad 3.1, mae cryfhau cyfraniad y Bwrdd Iechyd Prifysgol i'r Uned Diogelu'r Cyhoedd yn cefnogi ymateb mwy cydgysylltiedig o ran unigolion sy'n cael eu harestio ac sy'n hysbys i wasanaethau sy'n rhan o'r Uned Diogelu'r Cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf, Awdurdodau Lleol a darparwyr Tai, gan gynnwys safleoedd awdurdodedig. | Nyrs Ranbarthol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |
| **Ymateb gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| a) Mae achosion a reolir ar MAPPA lefel 2 neu 3 a'r holl achosion MAPPA Categori 1 yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw (ViSOR), a bellach dynodir eu bod 'wedi eu henwi ar ViSOR' ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Mae'r dynodiad hwn yn parhau ar ôl diwedd yr oruchwyliaeth statudol ac mae | a) Uned ViSOR MAPPA / Adran Diogelu'r Cyhoedd Heddlu De Cymru | a) Gwnaethpwyd |

<table>
<tr><td>canllawiau wedi eu cyhoeddi i sicrhau bod unrhyw broblemau sy’n codi yn ymwneud â phobl sydd wedi eu henwi ar ViSOR yn cael eu hatgyfeirio i Adrannau Diogelu’r Cyhoedd yr heddlu.<br><br>b) Mae hysbysiadau MAPPA gan ysbytai iechyd meddwl wedi eu harchwilio i sicrhau y defnyddir ffurflenni hysbysu cenedlaethol a bod cyfathrebu effeithiol rhwng ysbytai ac Unedau Diogelu’r Cyhoedd mewn Unedau Rheoli Sylfaenol.<br><br>c) Mae protocol rhannu gwybodaeth ynglŷn â phobl a allai fod yn beryglus a throseddwyr ag anhwylder meddwl yn cael ei drafod gyda’r nod o gynorthwyo i rannu gwybodaeth yn ddi-oed ac yn effeithiol rhwng asiantaethau.</td><td><br><br><br><br><br>b) Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA<br><br><br><br><br><br><br>c) Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA</td><td><br><br><br><br><br>b) Gwnaethpwyd<br><br><br><br><br><br><br>c) I’w gymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli Strategol ym mis Tachwedd 2012</td></tr>
<tr><td colspan="3">Argymhelliad</td></tr>
<tr><td colspan="3">O ran Carchar Parc</td></tr>
<tr><td colspan="3">3.3 O ran Carchar Parc a’r ffaith y gallai materion yn ymwneud â chaniatâd rwystro aelodau staff rhag gwneud atgyfeiriad i asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae AGIC o’r farn y dylid sefydlu protocol eglur sy’n nodi y gellir diystyru’r angen am ganiatâd pan fo’n briodol. Dylid nodi hyn yn eglur hefyd ar y ffurflenni caniatâd er mwyn atgoffa aelodau staff a chleifion o’r posibilrwydd na fydd angen caniatâd i rannu cofnodion ag asiantaethau eraill, er enghraifft meddygon teulu, darparwyr y GIG neu asiantaethau gofal cymdeithasol, pan ystyrir nad oes gan unigolyn alluedd neu ddirnadaeth o ran ei broblemau iechyd meddwl. Pan fo angen, dylid hyfforddi aelodau staff mewn materion yn ymwneud â chaniatâd fel eu bod yn deall sut i weithredu’r canllawiau hyn[1],<br><br>3.4 Dylai Carchar Parc adolygu ei gyflenwad o Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig a sicrhau bod y lefelau’n briodol fel y gellir cynnal asesiadau sgrinio prydlon a phriodol yng nghlinigau iechyd meddwl y carchar.</td></tr>
</table>

[1] Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai 2002/25 – *The Protection and use of Confidential Health Information in Prisons* – Adran 5.

| |
|---|
| 3.5 Dylai Carchar Parc sicrhau bod aelodau staff yn derbyn hyfforddiant ar drefniadau'r Dull Rhaglen Ofal ar gyfer Cymru a'u bod yn ymwybodol o'r dyletswyddau cyfreithiol sydd ar ddod dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.<br><br>3.6 Dylai Gwasanaethau Gofal Iechyd Carchar Parc sicrhau bod y prosesau ar gyfer cofnodi nodiadau meddygol yn gadarn. Dylid atgyfnerthu'r arfer hwn er mwyn sicrhau y cofnodir pob cam o lwybrau gofal yn llawn.<br><br>3.7 Yn unol â chanllawiau'r Llwybr ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Carchardai[2] a Gorchymyn y Gwasanaeth Carchardai 3500[3], dylai Carchar Parc sicrhau bod prosesau amlddisgyblaethol cadarn ac effeithiol wedi eu sefydlu o ran cynllunio ar gyfer rhyddhau. Dylid rhoi ystyriaeth i statws Dull Rhaglen Ofal y carcharor. Dylid rhoi copi o gynllun y Dull Rhaglen Ofal i'r carcharor wrth iddo gael ei ryddhau a chytuno ar y trefniadau ar gyfer trosglwyddo gofal gyda'r cydgysylltydd gofal. Pan fo'n berthnasol, dylai'r carcharor dderbyn copi o'i gynllun ôl-ofal dan Adran 117 hefyd. |

| **Ymateb gan Garchar Parc / G4S** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| **3.3** Protocol i'w lunio i sicrhau y gellir diystyru caniatâd pan fo'n briodol. Gweithdrefnau i'w sefydlu i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i garcharorion er mwyn cael caniatâd yn cael ei chofnodi'n gywir. Nyrsys Anabledd Dysgu a Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig i arwain mewn achosion pan fo gan yr unigolyn broblem iechyd meddwl neu anabledd dysgu. Hyfforddiant i'w ddarparu i'r holl staff ynglŷn â materion caniatâd, yn enwedig sut i symud achos i'r cam nesaf mewn sefyllfa pan na roddir caniatâd yn unol â'r polisi. | | Yr holl gamau wedi eu cwblhau |
| **3.4** Mae'r lefelau staffio wedi cynyddu ers yr adeg y diddymwyd contract Primecare. Mae | | Yr holl gamau wedi eu cwblhau |

[2] Llwybr i Gymru ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Carchardai (2006)
[3] Gorchymyn y Gwasanaeth Carchardai 3500 – *Release/Discharge* – Pennod 7, Paragraff 7.6

| | | |
|---|---|---|
| hanner ein staff bellach yn Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig. Bydd clinigau iechyd meddwl priodol ac amserau aros am asesiad yn cael eu monitro. | | |
| **3.5** Hyfforddiant i'w ddarparu i'r staff i gyd ar ymwybyddiaeth o'r Dull Rhaglen Ofal er mwyn eu galluogi i gefnogi'r timau Mewngymorth trwy'r broses hon. | | Cwblhawyd |
| **3.6** Proses archwilio i'w sefydlu er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau'n cofnodi nodiadau meddygol yn briodol. | | Cwblhawyd<br>Cynhelir archwiliad bob tri mis erbyn hyn |
| **3.7** Mae'r staff i gyd yn gweithio gyda'r tîm Mewngymorth i gefnogi prosesau cynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau.<br>Staff Carchar Parc i fynychu cyfarfodydd Adran 117 pan fydd carcharor yn cael ei ryddhau yn ôl i afael yr heddlu. | | Mae staff Carchar Parc bellach yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau carcharorion. Mae hyn yn arwain at ddull amlddisgyblaethol mwy effeithiol. |

**Argymhelliad**

**Y trefniadau rhwng Carchar Parc a'r Gwasanaethau Mewngymorth**

3.8 Yn unol â'r Llwybr ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Carchardai[4], dylai gwasanaethau gofal iechyd Carchar Parc a gwasanaeth mewngymorth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sicrhau bod nyrsys carchar perthnasol yn mynychu cyfarfodydd clinigol a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol er mwyn cryfhau cysylltiadau.

3.9 Dylid adolygu'r protocolau sydd wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau y gwneir atgyfeiriadau priodol i'r tîm mewngymorth. Nodwn y gallai hyn gael ei gryfhau gan y ffaith fod y tîm mewngymorth wedi'i leoli yng Ngharchar Parc erbyn hyn.

| **Ymateb gan Garchar Parc / G4S** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| 3.8 Carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Tîm Mewngymorth Iechyd Meddwl a Chlinig | | Parhaus |

[4] Yn unol â'r Llwybr i Gymru ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Carchardai (2006)

| | | |
|---|---|---|
| Caswell er mwyn sicrhau bod y dull o rannu gwybodaeth yn bodloni anghenion y boblogaeth o garcharorion. Bydd y cofnodion niferus a gedwir ar hyn o bryd yn cael eu cyfuno er mwyn sefydlu un cofnod a rennir ar gyfer y carcharor (System 1), a fydd yn gwella'r dull o rannu gwybodaeth. Bydd y llwybr atgyfeirio unigol yn cael ei adolygu'n rheolaidd hefyd.<br><br>3.9 Cynhaliwyd sawl cyfarfod adeiladol iawn gyda'r Tîm Mewngymorth Iechyd Meddwl. Mae cyfathrebu wedi gwella ac mae System 1 bellach wedi ei sefydlu (mis Hydref 2011), ac felly rydym yn gweithio tuag at un cofnod ar gyfer carcharorion.<br><br>Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn barhaus i adolygu a diweddaru'r llwybr atgyfeirio. Bydd llwybrau cyfathrebu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. | | Parhaus<br><br>Parhaus |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| 3.8 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi cynllunio llwybr atgyfeirio unigol mewn ymgynghoriad â Charchar Parc i gynorthwyo cleifion i gael mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl gofal eilaidd a ddarperir gan y Tîm Mewngymorth.<br><br>Mae aelodau o'r Tîm Mewngymorth yn mynychu cyfarfodydd y Tîm | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| Amlddisgyblaethol yn y Carchar. Cyfeirir at y rhain yn y Llwybr Atgyfeirio Unigol ac fe'u trefnir gan y staff Gofal Sylfaenol sy'n gweithio i Garchar Parc. | | |
| 3.9 Mae'r llwybr uchod yn golygu bod angen i staff gofal iechyd sylfaenol sy'n gweithio i'r Carchar gwblhau asesiad Dull Rhaglen Ofal ar gyfer yr holl gleifion y maent yn meddwl eu bod yn destun trefniadau ôl-ofal dan Adran 117 a threfniadau'r Dull Rhaglen Ofal. | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |
| **Argymhelliad** | | |
| **Trefniadau rhwng Carchar EM y Parc a Chlinig Caswell** | | |
| 3.10 Dylid sefydlu trefniadau cyfathrebu mwy cadarn a ffurfiol rhwng Clinig Caswell a Charchar Parc[5]. Dylai aelodau staff gofal iechyd y carchar hysbysu Clinig Caswell am unrhyw garcharor newydd sydd dan ofal Clinigydd Cyfrifol yng Nghlinig Caswell. | | |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Fel yr uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llunio llwybr atgyfeirio unigol sy'n golygu bod angen i staff Gofal Sylfaenol Carchar Parc hysbysu'r Tîm Mewngymorth Iechyd Meddwl Gofal Eilaidd os oes gan y Carchar glaf a fu dan ofal Clinigydd Cyfrifol o Glinig Caswell yn flaenorol. | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |
| **Ymateb gan Garchar Parc** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Cynnal cyfarfodydd gyda'r Tîm Mewngymorth, staff Clinig Caswell a staff Carchar Parc er mwyn datblygu protocolau. | | Cwblhawyd<br>Mae'r Tîm Mewngymorth, Clinig Caswell a Charchar Parc bellach yn sicrhau y rhennir |

[5] Yn unol â'r Llwybr i Gymru ar gyfer Iechyd Meddwl mewn Carchardai (2006).

| | | |
|---|---|---|
| | | gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw garcharor sydd wedi bod dan ofal clinigydd cyfrifol sydd wedi ei leoli yng Nghlinig Caswell, neu sydd dan ofal clinigydd cyfrifol o'r fath ar hyn o bryd. |
| **Argymhelliad** | | |
| **O ran Clinig Caswell** | | |
| 3.11 Dylai Clinig Caswell ffurfioli'r cyfarfodydd wythnosol a gynhelir i drafod cleifion, gan gynnwys y rhai sydd yn y gymuned neu yn y carchar ar hyn o bryd, y mae Clinig Caswell yn dal i fod yn gyfrifol am eu hôl-ofal dan adran 117, ar ran y gwasanaethau iechyd meddwl. Dylid cofnodi camau gweithredu'n briodol a hysbysu'r carchar perthnasol amdanynt. Dylai uwch aelod o staff gofal iechyd Carchar Parc ac aelod o dîm mewngymorth y carchar fynychu'r cyfarfod hwn. | | |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Cedwir cofnodion fel mater o drefn o'r cyfarfodydd cynllunio wythnosol a gynhelir i drafod llwybrau gofal cleifion, gan gynnwys y rhai hynny sydd yn y gymuned neu yn y Carchar ar hyn o bryd.<br><br>Yn y cyfarfod cynllunio wythnosol, bydd llwybrau gofal cleifion sydd wedi dychwelyd i'r Carchar o'r Clinic neu'r gymuned yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y cymerir camau priodol a'u bod yn cael eu cofnodi.<br><br>Bydd Clinig Caswell yn cadw cofnod o'r cleifion y mae ganddo gyfrifoldeb ffurfiol am eu hôl-ofal dan Adran 117, un ai yn y gymuned neu yn y Carchar.<br><br>Gwahoddir cynrychiolydd o Dîm Gofal Iechyd Sylfaenol Carchar Parc a'r Tîm Mewngymorth | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | Cwblhawyd |

| | | |
|---|---|---|
| Iechyd Meddwl Gofal Eilaidd i fynychu pob cyfarfod bore dydd Llun yng Nghlinig Caswell. | | |
| **Argymhelliad** | | |
| **O ran cyfarfodydd MAPPA a'u Haelodau** | | |
| 3.12 Pan ystyrir ei bod yn briodol ac yn angenrheidiol ymgynnull cyfarfod MAPPA, mae'n rhaid i'r asiantaethau sy'n gyfrifol am y trefniadau sicrhau y gwneir pob ymdrech i nodi'r partïon priodol a'u gwahodd i'r cyfarfod. Os na all y rhai a wahoddir fynychu, dylid eu cynnwys ar unrhyw restr ddosbarthu berthnasol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf diweddar a pherthnasol ar gael ar gyfer y cyfarfod MAPPA. | | |
| **Ymateb gan Ymddiriedolaeth Prawf Cymru** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Mae cyfarfodydd sgrinio MAPPA wedi sefydlu fformat a phroses gofnodi genedlaethol sy'n sicrhau presenoldeb partïon priodol mewn cyfarfodydd Lefel 2 a 3 yn ogystal â sicrhau bod modd archwilio'r broses atgyfeirio a phenderfynu. | Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA | Gwnaethpwyd |
| Nid yw MAPPA Caerdydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai'n elwa ar hynny er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod cyfrifol ac asiantaethau sydd dan ddyletswydd i gydweithredu ar gael i gyfrannu at y broses benderfynu. | Awdurdod Cyfrifol MAPPA ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Caerdydd | Parhaus |
| Mae pecyn hyfforddi Cyflwyniad i MAPPA wedi ei ddatblygu gyda'r tri Awdurdod Iechyd yn Ardal De Cymru er mwyn cyflwyno staff rheng flaen i'w cyfrifoldebau MAPPA. Mae'r pecyn hyfforddi hwn wedi ei gynnwys yn rhaglenni hyfforddiant craidd yr awdurdodau. | Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA | Gwnaethpwyd |

<table>
<tr><td>Ymdriniwyd â materion yn ymwneud â gwahodd staff Carchardai i gyfarfodydd MAPPA a sicrhau eu presenoldeb ynddynt yn Ardal De Cymru, ac mae hynny wedi gwella’n sylweddol.  Darperir Ffurflen F MAPPA, sef adroddiad manwl sy’n cynnwys cyfraniadau gan staff gofal iechyd carchardai, pan nad yw Goruchwylwyr Troseddwyr yn gallu mynychu.<br><br>Mae Uned ViSOR MAPPA Adran Diogelu’r Cyhoedd y Pencadlys yn monitro presenoldeb asiantaethau mewn cyfarfodydd MAPPA Lefel dau a thri ac yn cymryd camau i sicrhau bod cynrychiolaeth briodol ar gael yn y cyfarfodydd hynny.  Mae’r uned hefyd yn gweithredu fel un pwynt cyswllt er mwyn sicrhau bod staff meddygol yn gallu cysylltu â’r paneli MAPPA priodol yn yr Uned Reoli Sylfaenol.</td><td>Bwrdd Rheoli Strategol MAPPA<br><br>Uned ViSOR MAPPA yr Adran Diogelu’r Cyhoedd</td><td>Gwnaethpwyd<br><br>Gwnaethpwyd (monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol bob tri mis)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Argymhelliad</td></tr>
<tr><td colspan="3">O ran Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd</td></tr>
<tr><td colspan="3">3.13  Dylid cryfhau’r prosesau sy’n ymwneud â chwblhau ac adolygu ffurflenni PPD1.  Dylid sefydlu trefniadau archwilio er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau a’u symud i’r cam nesaf yn briodol.  Yn ogystal, dylid egluro swyddogaeth a diben y ffurflenni i’r holl randdeiliaid perthnasol.<br><br>3.14  Dylai Clinig Caswell a Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd adolygu a chryfhau eu prosesau ar gyfer cwblhau asesiadau gofalwyr, a sicrhau bod yr angen i gynnal asesiad gofalwyr yn cael ei bwysleisio yn rhan o broses y Dull Rhaglen Ofal.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Ymateb gan Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd</td></tr>
<tr><td>Ymateb</td><td>Arweinydd</td><td>Amserlen</td></tr>
<tr><td>3.13 Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar wella’r gweithdrefnau ar gyfer derbyn a</td><td></td><td>Canol mis Rhagfyr</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| lledaenu ffurflenni PPD1 a dderbynnir gan yr Uned Diogelu'r Cyhoedd, gan gynnwys sgrinio ffurflenni PPD1 gan yr Uned Diogelu'r Cyhoedd a'u dosbarthu i flychau e-bost diogel.<br><br>Ynghyd â phartneriaid yn y gwasanaeth Iechyd a'r Heddlu, rydym yn datblygu dealltwriaeth a disgwyliadau ar y cyd o'r weithdrefn PPD1, gan gynnwys cyfres eglur o feini prawf a throthwyon ar gyfer ymateb gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Bydd gweithdrefnau archwilio ar gyfer y trefniadau hyn yn cael eu datblygu erbyn canol mis Rhagfyr. | | |
| 3.14 Byddwn yn adolygu'r defnydd o'r gweithdrefnau hyn yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl erbyn mis Ionawr 2012 gan edrych ar ba mor aml y'u defnyddir a'r canlyniadau, ac yn nodi meysydd y mae angen eu datblygu er mwyn prosesu asesiadau gofalwyr yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion. | | Ionawr 2012 |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| 3.14 Mae staff Gwaith Cymdeithasol yng Nghlinig Caswell yn cysylltu ag Awdurdod Lleol cynhaliol y claf ynglŷn â pharatoi asesiad gofalydd. Bydd y broses hon yn cael ei hadolygu yng nghyfarfod y Grŵp Cyswllt Awdurdod Lleol, sef cyfarfod rheolaidd sy'n | Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 28 Chwefror 2012 |

| | | |
|---|---|---|
| cynnwys cynrychiolwyr o Glinig Caswell a phob un o'r un ar bymtheg o Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei ddalgylch yn Ne Cymru. | | |
| **Argymhelliad** | | |
| **O ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | |
| 3.15 Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro adolygu'r trefniadau y mae wedi eu sefydlu ar gyfer rhannu gwybodaeth ar draws ei dimau a'i wasanaethau iechyd meddwl a chydag asiantaethau eraill. | | |
| **Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | |
| **Ymateb** | **Arweinydd** | **Amserlen** |
| Yn 2010, ail-lofnododd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru – gan ymuno ag 13 awdurdod lleol a 24 sefydliad arall, gan gynnwys yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r Cytundeb hwn yn rhoi fframwaith i sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth er mwyn iddynt allu rhannu gwybodaeth rhyngddynt mewn modd cyfreithlon a deallus.<br><br>Mae trefniadau wedi eu rhoi ar waith hefyd i staff iechyd ac awdurdodau lleol allu defnyddio PARIS (system gwybodaeth am gleifion) yn yr Uned Diogelu'r Cyhoedd. | Swyddog Prosiect Technoleg a Rheoli Gwybodaeth, Iechyd Meddwl<br><br>Nyrs Ranbarthol y Gwasanaethau Iechyd Meddwl | **Cwblhawyd** |